

Agor Neuadd Hoddinott



Nos Iau, 22 Ionawr, agorodd Neuadd Hoddinott - a enwyd ar ôl y diweddar Alun Hoddinott, un o gyfansoddwyr mwyaf toreithiog Cymru - ei drysau ym Mae Caerdydd. Nid yn unig mae'n gartref newydd i Gerddorfa Genedlaethol y BBC yng Nghymru, mae hefyd yn ychwanegu neuadd berfformio newydd arall i Ganolfan Mileniwm Cymru.

"Mae'n gwneud Canolfan Mileniwm Cymru'n unigryw ymhlith canolfannau celfyddyd Prydain ac yn cymharu'n ffafriol â Chanolfan Lincoln yn Efrog Newydd," medd Judith Isherwood, prif weithredwr y Ganolfan. Cytuna David Murray, cyfarwyddwr Cerddorfa'r BBC: "Ar un safle, mae gennyh y cwmnïau opera, dawn, theatr a llenyddiaeth cenedlaethol ac yn awr y gerddorfa genedlaethol hefyd."

Bydd hon hefyd yn gartref newydd i Gorws Cenedlaethol BBC Cymru. Penodwyd Tim Green, 25 oed, i ofalu am y prosiect. Newyddian ai peidio, mae wedi gwneud gwaith aruchel ar y Neuadd. I bob pwrpas stiwdio recordio yw hon: gofod mawr all gymryd y gerddorfa fwyaf, oriel i gôr a seddau rhenciog i gynulleidfa o 350.

Bydd lle arall, llai, wedi'i enwi ar ôl cyfansoddwr arall o Gymru, Grace Williams, yn caniatu ymestyn y nifer o brosiectau rhyngweithiol rhwng y gerddorfa a phlant ysgol a'r gymuned ehangach.

Os mai stiwdio recordio "yn unig" yw Neuadd Hoddinott, mae'n rhaid mai hon yw'r harddaf ym Mhrydain. Mae Green wedi cynllunio'r neuadd ar ffurf chwech ochr o goed derw, ffawydd a choed caled eraill sy'n sicrhau bod y neuadd yn atseinio fel offeryn cerdd.

Derbyniodd Alun Hoddinott nifer o anrhydeddau ond mae hon yn anrhydedd arbennig ac unigryw.

"Mae'n hollol addas bod ei berthynas waith agos dros nifer o flynyddoedd gyda Cherddorfa Genedlaethol BBC Cymru'n cael ei anrhydeddu fel hyn. Rydym yn falch iddo dderbyn yr anrhydedd," medd David Murray.

Darganfod eich 'Gwreiddiau' - a mwy

Wedi cael digon ar fod yn y ty? Beth am ymweld ag arddangosfa hynod drawiadol 'Gwreiddiau: canfod y Gymru gynnar' yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd, i ryfeddu at stori arwrol eich hynafiaid yn y rhan o dir a elwir gennym heddiw yn 'Cymru'. Dyma hanes sy'n ymestyn o ddechrau Oes y Cerrig tuag at gyfnod Harri'r 8fed, sef tua 230,000 o flynyddoedd. Cewch eich synnu gan y gweddillion dynol cynharaf a ddaethpwyd o hyd iddynt yma yng Nghymru, ar fenthy gan Amgueddfa Hanes Natur Rhydychen. Ochneidiwch yn awchus dros freichledau aur cain o'r Oes Efydd a thynnu anadl wrth syllu ar harddwch fygythiol pentan aelwyd pennaeth o'r Oes Haearn. Atyniad arall yw'r cwpan bychan, cywain, Rhufeinig gyda'i ddolen llewpard, oedd yn amlwg yn annwyl gan ei berchennog. A chofiwch chwilio am ddarn o gleddyf pendefig o Lychlyn a gollwyd ym mherfeddion Môr Iwerddon yn y 12 ganrif, ac am wynebau wedi'u hail-greu o benglogau teulu bach o Fôn a gafodd ei lofruddio, efallai, gan y Northmyn. A dyna i chi'r stori am y diptych ifori a guddiwyd am ganrifoedd mewn bwthyn yn Llandaf . . .

Dewch a rhyfeddwch o 10.00-5.00 bob dydd heblaw am ddydd Llun. Mae teithiau tywys yn agored bob dydd Iau a dydd Sadwrn am 2.30. Os am daith gyda thywysydd yn y Gymraeg, trefnwch ymlaen llaw gyda Rhiannon ar 029 20573325. A chofiwch am ddwy arddangosfa ddifys fydd yn agor yn Chwefror, y naill ar gyfraniad Darwin a'r llall ar waith yr arlunydd Sisley.

Gorymdaith Genedlaethol Gŵyl Dewi 2009

O risiau'r Amgueddfa Genedlaethol, Parc Cathays am 10'r gloch ar ddydd Sul, 1 Mawrth, bydd Arglwydd Faer Caerdydd yn croesawu'r dorf i'r brifddinas. Yna, bydd y Parchedig Hywel Davies yn gofyn bendith cyn i 6ed Orymdaith Genedlaethol Gŵyl Dewi fynd ar ei hynt.

Dyma achlysur sydd bellach wedi tyfu i fod ymhlith y pwysicaf yng Nghymru gyda thros 10,000 o bobl yn cymryd rhan yn 2008 - achlysur y mae croeso i bob un o garedigion y genedl gymryd rhan ynddo. Felly, dewch yn llw - ar ddechrau'r Orymdaith neu gallwch ymuno ar hyd y daith.

Bydd yr Orymdaith yn ymlwybro'n hamddenol trwy ganol y brifddinas, i lawr

Cam Ymlaen Ynghanol y Dryswch

Ym mis Rhagfyr, penderfynodd Caerdydd yn derfynol i agor trydedd ysgol uwchradd Gymraeg fis Medi 2012 ar safle presennol Ysgol Sant Teilo. Mae hwn yn rhan o gynllun ehangach i ad-drefnu addysg uwchradd yn nwyrain y ddinas. I ddelio â'r galw am le rhwng 2009 a 2012 bydd y sir yn gwario £15m+ ar ehangu Plasmawr a Glantaf, estyniadau a fydd o gymorth yn y cyfnod 2015-2018 hyd nes bydd yn rhaid agor y bedwaredd ysgol uwchradd, cymaint yw twf yr ysgolion cynradd.

Yn yr un penderfyniad, cadarnhawyd y bwriad i gau Ysgol Cefn Onn ond, yn drist, flywyddyn yn hwyrach, sy'n cadw Ysgol y Wern yn eu cabanau dros dro am flywyddyn arall.

Yn anffodus iawn, mae'r sir am ymgynghori ar gynllun arall gogyfer â Threganna, sef y trydydd, sy'n sicrhau na all plant Treganna gael adeilad addas cyn Medi 2011. Er waetha'r problemau, bydd Treganna yn denu 72 plentyn erbyn Medi 2009. Ni all Treganna, gydag uned Tan-yr-Eos, dderbyn mwy na 60 ond mae'r sir yn ein sicrhau y bydd pob plentyn yn cael addysg Gymraeg.

Nid Treganna yw'r unig ysgol â phroblem diffyg lle; eleni bydd Mynydd Bychan yn rhannu'r un sefyllfa barhaus â Melin Gruffydd wrth wynebu galw sy'n uwch na'r ddarpariaeth. Eto, mae'r sir yn addo ateb heb hyd yn hyn ddatgelu ei natur - ai Ysgol Babanod Gabalfā ai cartref hen bobl yn Heol Don ai beth?

Mae ansicrwydd lleoliad yr ysgolion newydd a phryderon am ddiffyg lle wedi cael effaith andwyol ar dwf addysg Gymraeg. Cynnydd o 562 i 564 yn unig a gafwyd y flywyddyn academaidd hon, ond bydd agor unedau fel ysgolion go iawn yn Trowbridge, Caerau a Bryn Celyn yn trawsnewid y sefyllfa ym Medi 2009.

Heol y Santes Fair a Rhodfa Lloyd George, i gyfeiliant llw o fandiau sy'n cynnwys Bagad Morgannwg, Band Pres Gwddig, a gwesteion arbennig o Lydaw - 'Bagadig Plougastell' o Plougastell-Daoulas, a'r dawnsuwr 'Bleuniadur' o St Pol de Léon. Ar y dydd Gwener cyn yr Orymdaith, bydd y Llydawyr yn ymweld ag Ysgol Plasmawr, ac ar y dydd Sadwrn, yn perfformio yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Daw'r Orymdaith i ben (tua 2 pm.) o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd, gydag anerchiad gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

'Os ydych chi'n caru Cymru, dylech fod yno!'

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Elfrys Jones

Golygydd y rhifyn nesaf:
Alun Williams

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn
Ebrill 2009

erbyn 12 Mawrth 2009 at:

12 Stryd Talbot, Pontcanna,
Caerdydd CF11 9BW

ebost: aluneurig@hotmail.com

ffôn: 029 20359118

neu at Gadeirydd Pwyllgor

Y Dinesydd:

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain
Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP

(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk)

ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ

(JamesEW@caerdydd.ac.uk;

029-2062-8754)

Hysbysebion

Menter Caerdydd, Tŷ Avocet,

88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,

Caerdydd CF14 2FG

(hysbysebu@dinesydd.com;

029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU

(ceri33@btopenworld.com;

07774-816-209)

Cyhoeddir Y Dinesydd gan

Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan Penri Williams

a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ymateb i'r Apêl Ariannol yn rhifyn Rhagfyr

Hyd yn hyn, mae 38 cyfraniad wedi dod i law yn sgil yr apêl a wnaed yn rhifyn mis Rhagfyr o'r *Dinesydd*. Daethant oddi wrth:

Unigolion

Ann Brain. Mair Davies. Mel a Delyth Dunsford. Fred Dyer. Eirian Edwards. Tom Edwards. Alun a Rhiannon Evans. Valmai Evans. Parch. Huw Ethall. Glyn a Helen Evans. Tom a Freda Evans. Shan Gillard. Bryan James. G James. Dr Bill Jones. Eilonwy Jones. Heulwen Jones. Dr Gwenllian Lansdown. Mair a Gerald Latter. Eirion Lewis. Arwel a Non Owen. Mair Owen. Bob Puw. Yr Athro Gwynedd O Pierce. Eluned Press. Gareth Reynolds. Gwilym E Roberts. Peter a Mair Robins. Yr Athro Meic a Ruth Stephens. Patricia Walker. Iolo ac Eiry Walters. Glyn a Carys Williams.

Cymdeithasau

Capel Bethel, Rhiwbina

Yn ogystal, ymatebodd yr ysgolion canlynol i lythyr a anfonwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd yn gofyn am eu cymorth:

Ysgolion

Ysgol Pen y Garth. Ysgol Plasmawr

Ysgol Pwll Coch. Ysgol y Berllan Deg.

Ysgol y Mynydd Bychan

Rydym fel Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddynt oll am eu rhoddion hael ac am y gefnogaeth ymarferol hon i'n hymdrechion i barhau i gyhoeddi'r *Dinesydd*.

Ond, os ydym yn mynd i ddal ati i gyhoeddi'r *Dinesydd* o fis i fis, mae angen mwy o roddion – llawer mwy! Felly, tybed a fydddech chi cystal ag ystyried dilyn eisampl y cyfeillion uchod, os gwelwch yn dda!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Frances Kelly, Rhiwbeina ar ei dyweddïad â Mathew Pitt, Penygraig, Rhondda.

Llongyfarchiadau i ddau o weithwyr Amgueddfa Werin Cymru sef Dewi Jones, Dinas Powys a Meinwen Ruddock, y Tyllgoed ar eu dyweddïad.

Llongyfarchiadau i Ann Smith, Llanisien ar ei phenodiad fel athrawes yn Ysgol y Wern. Cyn hyn, rhoddodd wasanaeth clodwif i Gylch Meithrin Rhiwbeina. Ei holnydd yw Suzie McLean.

Llongyfarchiadau i'r seiclwrraig Nicole Cooke o'r Wig yn y Fro, y seiclwr Geraint Thomas o'r Eglwys Newydd a'r rhwyfwr Tom Jones, yn enedigol o Gaerdydd ar dderbyn yr MBE; Owain Arwel Hughes y cerddor a'r arweinydd, gynt o Benylan, ar dderbyn y CBE a chyn brif saer Amgueddfa Werin Cymru, Ray Smith fu'n gweithio i adfer Eglwys Teilo Sant, ar dderbyn yr MBE.

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Cyngherddau'r Nadolig

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd y Blynyddoedd Cynnar gyngherddau Nadolig llwyddiannus iawn a hefyd Blynyddoedd 1 a 2 ac Adran Iau yr ysgol. Roedd y plant lleiaf wrth eu bodd yn perfformio o flaen eu rhieni. Yng Nghyfnod Allweddol 1 perfformiwyd sioe "Nadolig y Cardiau" gan gyfuno stori draddodiadol Bethlehem gyda chaneuon modern a golygfeydd amserol. Yn yr adran iau canolbwyntiwyd ar Draddodiadau'r Nadolig. Dyma adroddiad gan ddisgybl Blwyddyn 6:

Traddodiadau'r Nadolig

Ar ddechrau mis Rhagfyr y llynedd, fuodd pawb yn brysur iawn yn ymarfer tuag at y Gyngerdd Nadolig, a oedd yn digwydd ar Ragfyr 17 a Rhagfyr 18 yn neuadd yr ysgol. Roeddem yn gwneud tair sioe.

Dechreuodd y gyngerdd yn effeithiol iawn gyda goleuadau'r neuadd wedi eu diffodd a phlant blwyddyn 6 yn cerdded i fewn gyda chanhwylau gan ganu *Dawel Nos* yn Gymraeg ac Almaeneg.

Roedd yna lawer o eitemau diddorol yn ymwneud â thraddodiadau'r Nadolig. Un ohonynt oedd y Fari Lwyd a fyddai'n dechrau bob blwyddyn rhwng cyfnod y Nadolig a'r Ystwyll. Eitem ddiddorol arall oedd yr un ar y Plygain. Cawsom ddysgu hefyd am draddodiad y Goeden Nadolig. Dechreuodd bobl Prydain ddefnyddio'r goeden yn Oes Fictoria.

Fe fuodd Blwyddyn 3 yn brysur iawn yn ymarfer eu heitem nhw gan ganu'r garol 'Pwy a Wyr?' Roedd eitem blwyddyn 4 yn arbennig iawn gan iddynt ganu ac actio'r gân 'Deuddeg Diwrnod Nadolig' (Twelve Days of Christmas).

Un eitem arall fythgofiadwy oedd y 'Pie Jesu' allan o'r Requiem gan Andrew Lloyd Webber. Ysgrifennwyd geiriau Nadoligaidd ar gyfer y gân a chanwyd hi gan ddisgyblion Blwyddyn 6.

Mae angen diolch i bob un o'r athrawon am eu gwaith yn ein dysgu ni. Roeddwn i wedi mwynhau yn fawr bod yn rhan o'r cyngherddau yma, ac rydw i'n gwybod bod y gynulleidfa hefyd, wedi mwynhau.

Rhian Melhuish Blwyddyn 6

Aled Wyn Davies

BSc(Hons) BArch ARB RIBA



Pensaer

Dylunio cyfoes, cynaliadwy.
Cynlluniau sydd yn ymateb
i hinsawdd, diwylliant a
chyd-destun

Cysylltwch â ni i drafod
syniadau

21 Davies Place, Caerdydd
CF5 3AQ

t. 07815 293 424

e. aled@craidd.com

g. www.craidd.com

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Wedi noson lwyddiannus yng nghwmni'r band "Ecumenical 7", cyflwynwyd dwy sic o £500 yr un i "Nyrsgys Macmillan" a "Chronfa'r Bws/Ambiwlans Gwasanaeth Gwirfoddol Dinas Powys".

Yn y llun, mae Dr. Mike Robinson a Penny Ann Evans yn derbyn sic y Gwasanaeth Gwirfoddol a Sarah Asbrey yn derbyn sic Nyrsgys Macmillan oddi wrth Gadeirydd ac aelodau'r pwyllgor.



Ysgol Coed y Gof

Dosbarth 4E

Mae ein dosbarth wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect celf o'r enw 'Create a Quest'. Ym mis Medi, aethom i'r Amgueddfa Genedlaethol i gymryd rhan mewn gweithdy gydag Eleri Evans, Cydlynnydd Addysg y Celfyddydau a'r Gwyddorau. Cyflwynwyd ni i waith yr arlunwyr Cymreig Thomas Jones a Terry Setch.

Penderfynodd y disgyblion ar y thema 'Crwydro'r Bae' oherwydd tueddiad Terry Setch i greu ei waith drwy gerdded, crwydro, braslunio a chasglu deunyddiau ar gyfer ei waith. Gwnaed penderfyniad hefyd i edrych yn fanwl ar adeiladau'r Bae a'n hardal leol yma ym Mhentrebaen.

Cawsom gyfle i weithio gyda'r artist Ffion Rhys. Aethom gyda hi i Fae Caerdydd ac yno cawsom ddiwrnod penigamp yn braslunio panorama o'r Bae a thynnu lluniau camera o adeiladau a golygfeydd y Bae. Yna, aethom am dro ar hyd llwybr y Taf i fraslunio ac i dynnu lluniau camera o olygfeydd o'r afon.

Yn ôl yn yr ysgol, cawsom gyfle i ddefnyddio'r lluniau camera i greu gwaith celf gyda'r rhaglen gyfrifiadurol 'photoshop' a chreu mono printiau, llyfrau braslunio, paentiadau, brithwaith, gwaith iaith yn seiliedig ar lwybr y Taf, yr afon a'r Bae. Yn ein gwersi ymarfer corff roeddem yn creu dawns 'yr Afon Taf'. Yn ystod hanner tymor yr Hydref cafodd ein gwaith ei arddangos yng Nghanolfan Siopa Dewi Sant.

Taith i Lundain

Ym mis Chwefror, ynghyd â 42 o ysgolion eraill dros Brydain, bydd y dosbarth yn mynd i Lundain i ddangos ein gwaith celf ac i berfformio dawns mewn arddangosfa yn Eglwys y Santes Fair, Marylebone.

Blwyddyn 2

Cafodd Blwyddyn 2 ddiwrnod i'w gofio ar eu trip i Waitrose a Siop Gwalia, Sain Ffagan yn ddiweddar. Roedden ni'n gallu cymharu sut oedd pobl yn siopa amser maith yn ôl a heddiw. Mae llawer o newidiadau i'w gweld! Diolch yn fawr i staff Waitrose am eu croeso cynnes.

Ysgol Pwll Coch

Llongyfarchiadau i Miri Huws am ennill cystadleuaeth i ddylunio cerdyn Nadolig i'w ddefnyddio gan 'Yr Ymgyrch Sothach Sbwriel'. Llongyfarchiadau hefyd i Callum Edney a gafodd gymeradwyaeth uchel am ddylunio cerdyn i Heddlu De Cymru. Derbyniodd Cassi Anderson, Elin Baker, Ella Braun, Dyfan Goode, Deio Hughes, Lili Nefydd, Lottie Rivers ac Anna Williams wobrau hefyd am eu hymdrechion arbennig hwythau.

Cyngherddau Nadolig

Cafwyd perfformiad campus o stori'r geni gan blant y Feithrin a'r Derbyn a Blwyddyn 1, 'Annest yr Angel' gan ddisgyblion Blwyddyn 2, 'Ceidwad y Byd' gan Blwyddyn 3 a 4 yng Nghapel Salem, Treganna a gwasanaeth Cristingl yn neuadd yr ysgol gan ddisgyblion Blwyddyn 3 hefyd.

Prysurdeb y Côr

Cafodd y Côr brofiad arbennig yn canu yn yr Eglwys Gadeiriol gyda Chôr CF1 ac Ysgol Plas Mawr. Codwyd dros £3,000 tuag at elusen 'Latch'. Bu'n canu hefyd yng Nghapel Tabernacl ac yn y Ffair Nadolig yng Nghastell Caerdydd. Diolch i Miss Griffiths a Mrs Cockrell am eu holl waith caled.

Wythnos fenter

Codwyd dros £287 gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu hwythnos fenter. Bydd yr elw yn talu am eu trip ac adnoddau i ddosbarthiadau Blwyddyn 6.

Gwobr

Yn arddangosfa 'Yr Ymgyrch Sothach Sbwriel' enillodd yr ysgol gwobr am fod yr ysgol sy'n ailgylchu orau yn y sir! Cyrhaeddodd ein gwobr yn ddiweddar - bin abwydfa anferth ar ffurf twrch daer! Daliwch i ddod â chetris, cyfrifiaduron, bylbiau, batris a hen ffonau symudol i'w hailgylchu.

Bws Cerdded


Cafodd y bws cerdded sylw arbennig yn ddiweddar pan ddaeth Gweinidog Addysg y Cynulliad, Jane Hutt, i gerdded gyda nhw!! Cafodd Rhys Morris a Ben Cooksley eu cyfwrdd ar gyfer rhaglen Ffeil hefyd.

Canlyniadau Pêl droed

Tîm A 3 Danescourt 0; Tîm A 4 Cwrt yr Ala 3; Tîm B 4 Cwrt yr Ala 2; Tîm A 0 Radur 1; Tîm A 8 Lansdowne 0; Tîm B 8 Lansdowne 4; Tîm A 4 Bryn Hafod 1; Tîm B 3 Bryn Hafod 1;

Canlyniadau Rygbi

Pwll Coch 45 Trelai 10; Tîm A 10 Bro Eirwg



Ysgol Glantaf

6ed dosbarth yn Lllys y Goron.

Ar 8 Tachwedd, ymddangosodd 14 o aelodau'r 6ed dosbarth yn Lllys y Goron Caerdydd - ddim yn y doc! Roeddem yno i erlyn ffug achos yn erbyn yr egwyddor o gadw DNA pawb ym Mhrydain ar fas-data. Fel cyfreithwyr da, bu'n rhaid ymchwilio i'r achos yn drylwyr, crynhoi tystiolaeth a pharatoi dadleuon. Myfyrwyr Coleg Chweched Dosbarth Caerdydd oedd yn amddiffyn yr egwyddor ac aelodau o glybiau ieuencid y ddinas oedd y rheithgor. Sail ein dadleuon oedd hawliau dynol a chost.

Cafwyd dadlau ffyrnig ond bonheddig cyn i'r rheithgor ymneilltuo i ystyried y ddedfryd. Roeddem wedi'u hargyhoeddi. Talodd yr holl waith paratoi ar ei ganfed.

Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Diolch i ymdrechion codi arian y Gymdeithas, mae gan y disgyblion do diddos wrth aros yn y ciw cinio a bws mini i gario'r plant i wahanol weithgareddau - dau brosiect a ariannwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Eleni, ymrwymodd y Gymdeithas i brynu llwyfan symudol. Defnyddiwyd ef am y tro cyntaf yn y sioe "Byd islaw'r Bont". Hefyd, rhoddwyd addewid i dalu am biano newydd gan fod yr hen un wedi rhoi ei olaf donc. I wneud hyn, gofynnwyd i bob teulu Noddi Nodyn drwy gasglu newid mân o bocedi.

Cafwyd Raffl Fawr yn ystod tymor yr Hydref a chodwyd tua £2000. Roedd gwobrau mor amrywiol ag Ipod Touch, diwrnod i'r brenin yn Spa Gwesty Dewi Sant neu brint o waith yr artist (a chyn-athro) Anthony Evans.

Yn ystod y gwanwyn, cynhelir sioe ffasiwn liwgar a Chinio Mawr-o ran y bwyd ar y plât a'r nifer yno gobethio. Manylion yn y Dinesydd. Cysylltwch â'r ysgol os am brynu'r plât a'r mwg i gofio'r achlysur.

25; Tîm B 15 Bro Eirwg 15;

Sgoriodd Tîm A saith cais yn erbyn Sant Padrig yn y gêm gwpan a bydd yn chwarae yn erbyn Bryn Hafod neu Ysgol y Brenin Iesu yn yr ail rownd. Daeth Karl Riley i'r ysgol i roi cyfres o wersi i ddisgyblion Blwyddyn 3.

Nofio

Enillodd Deio Hughes y ras rydd a phili pala yng Ngala Flynyddol yr Urdd.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Rhagoriaeth yn Ysgol y Fro

'Dyrol dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd'
Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn cyrraedd y copa! Yn adroddiad disglair arolwg ESTYN tynnwyd sylw arbennig at addysgu rhagorol, ymddygiad eithriadol y disgyblion, arweinyddiaeth ddeinamig ynghyd â chanlyniadau arholiadau o'r radd flaenaf.

"Mae hwn yn adroddiad anhygoel" medd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Geraint Evans, "...does dim angen gwell. Mae'n wirioneddol ragorol bod yr Ysgol wedi llwyddo i ennill chwe Gradd Un a hithau ond yn wyth mlwydd oed."

Canmolwyd safon dwyieithrwydd y disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg 'Mae medrau dwyieithog disgyblion yn rhagorol. Defnyddir yr iaith Gymraeg yn gyson ac mae'n amlwg iawn o fewn y prif adeiladau ac o amgylch yr ysgol.'

Proffwyddodd llawer na fyddai'n bosibl cynnal Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Y Fro. Gwrthbrofodd arolygwyr ESTYN hyn.

Cysylltiadau â'r Gymuned

O dan arweiniad Leonie Horton, cynhaliwyd gweithdai Dysgu Teuluol i rieni a phlant Blwyddyn 1 Ysgol Gwaun y Nant fel rhan o ymgyrch 'Cymryd y Llyw/ Taking control'. Ariannwyd y cynllun gan NIACE. Cynhaliwyd sesiynau 'celf a chreffft' a 'Geiriau i'r Cartref', i annog rhieni i ddysgu Cymraeg gyda'u plant a chymryd mantais o gyrsgiau Addysg i Oedolion lleol.

Cogydd o fri

Llongyfarchiadau i Efan Elis, disgybl ym mlwyddyn 11 a ddaeth i'r brig ym maes arlwyio. Enillodd y cogydd brwd gystadleuaeth gan Gwib Rotari'r Barri ar gyfer cogyddion ifanc. Bydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd ranbarthol.



Llwyddiannau rygbi

Yn ystod Tymor yr Hydref, teithiodd y tîm hîn i Ganada gan fod yn fuddugol ar sawl achlysur. Llongyfarchiadau i Efan Elis ar gael ei ddewis i sgwad o dri deg ar gyfer tîm rygbi cynghrair Cymru ac i Cory Allen a Sebastian Vidal ar ennill eu lle yn sgwad Cymru o dan 16 oed. Yn dilyn llwyddiannau'r llynedd, pan enillwyd cystadleuaeth saith bob ochr Bishopston, saith bob ochr y Fro a chyrraedd rownd derfynol Rosslyn Park, gwahoddwyd y tîm hîn i gymryd rhan yng nghystadleuaeth saith bob ochr Coleg Llanyddyfri.

Gwaith elusenol

Mae disgyblion blwyddyn 12 sy'n dilyn cymhwyster y Fagloriaeth Uwch am y tro cyntaf eleni, wedi ymroi yn llwyr i'r ymgyrch i godi arian at elusennau lleol. Trefnwyd nifer o weithgareddau yn ystod mis Rhagfyr gan gynnwys ffair Nadolig llwyddiannus. Casglwyd elw sylweddol tuag at ystyby Felindre.

Siarad Cyhoeddus

Llwyddodd y tîm Cymraeg i gyrraedd y rowndiau terfynol eleni eto ac yn ystod mis

Ysgol y Berllan Deg

Y Nadolig

Llongyfarchiadau i bawb am berfformio'n wych yn y sioeau Nadolig. Bu'r dosbarthiadau meithrin yn perfformio 'Stori'r Nadolig', y Cyfnod Sylfaen yn perfformio 'Y Goeden Fach Hardd' a'r Adran Iau yn cloi'r perfformiadau gyda'u sioe 'Joseff a'i Gôt Amryliw'. Diolch i bawb fu ynghlwm â'r holl waith, ac i'r noddwyr am eu haelioni.

Bu Blwyddyn 5 yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Nadolig ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd yng Nghapel Tabernacl. Hefyd, bu côr yr ysgol yn lwcus iawn o gael canu gyda'r enwog 'Only Men Aloud' yn Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yng nghanol y ddinas. Cyn y Nadolig, llwyddodd yr ysgol i gasglu cannoedd o focsyst esgidiau'n llawn anrhegion hyfryd i blant yn Rwmania.

Planed Plant

Yn ddiweddar, daeth Planed Plant i'r ysgol i ffilmio rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5. Cawsant gyfle i anfon cyfarchion, a chafodd bawb gyfle i gyfarfod Tudur – un o gyflwynwyr newydd S4C.

Ymweliadau

Ymwelodd y delynores enwog Glenda Clwyd â ni i gynnal gweithdy am y delyn a tharddiad rhai o'n halawon gwerin sy'n rhan mor bwysig o'n traddodiad. Hefyd, daeth Bardd Plant Cymru – Ifor ap Glyn - i gynnal gweithdy barddoniaeth gyda Blwyddyn 3. Daeth Techniquet i roi cyflwyniad i'r Adran Iau am y planedau a'r sêr mewn pabell enfawr yn y neuadd!

Dymuniadau da

Croeso mawr i Mrs Sian Ward atom fel aelod newydd o'r staff i addysgu Blwyddyn 4 - gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith. Llongyfarchiadau i Mrs Sioned Wyn Jones ar enedigaeth Gwyn Llywelyn; a dymuniadau gorau i Mrs Ffion Roberts ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar.

Ionawr enillodd y tîm hîn Saesneg y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth a drefnwyd gan y Rotari. Aelodau'r tîm oedd Ruth Pilcher, Siôn Owen a Mollie Arbuthnot. Dewiswyd Mollie fel y gwrthwynebydd gorau. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm iau a ddaeth yn ail sef Hawys Davies, Nia Spilsbury a Bethany Hawkins. Hawys a ddewiswyd fel cadeirydd gorau'r gystadleuaeth.

Sêr y Sgrin fach

Mae nifer o ddisgyblion wedi cyfrannu at amrywiol raglenni'n ddiweddar, fel Mosgito. Yn ystod gwyliau'r Nadolig, mwynhaodd Steffan Griffin o flwyddyn 11 y profiad o gyd-weithio â'r seren ryngwladol Rhys Williams a dod yn fuddugol ar y rhaglen Pen Campau'r Sêr. Gwahoddwyd Thomas Firth, Richard Pilcher ac Ellis Jackson, Blwyddyn 8 i gymryd rhan mewn sesiwn sgiliau gyda tîm hoci iâ'r Cardiff Devils ar Mosgito. Nod y rhaglen oedd dysgu sgiliau hoci iâ i'r bechgyn a hwy yn eu tro'n dysgu geiriau'r anthem genedlaethol i'r chwaraewyr. Edrychwn ymlaen at weld yr eitem a dilyn hnt a helynt Steffan Griffith a Ieuan Donovan yn rownd derfynol Pen Campau.

Ysgol Sant Curig, Y Barri

Operation Christmas Child

Eleni, bu'r plant yn paratoi dros 200 o flychau rhoddion i blant llai ffodus yn Romania. Mae'r blychau bellach wedi dechrau ar eu taith. Diolch i bawb a roddodd flwch i blentyn y Nadolig hwn.

Y Delyn Hud

Cafodd bob plentyn yn yr adran iau y cyfle i weld Glenda Clwyd yn canu ei thelyn hud. Perfformiodd nifer o ganeuon traddodiadol Cymreig yn ogystal â rhai darnau modern. Daeth Glenda ag amryw o delynau i'r sesiwn gerddorol a chafodd y plant gyfle i holi cwestiynau amdanynt.

Nadolig

Cynhaliodd yr adran iau ei gwasanaeth Nadolig yng Nghapel y Tabernacl y Barri. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru unwaith eto. Diolch i aelodau'r Tabernacl am ein croesawu i'r Capel. Diolch hefyd i Catrin Thomas am roi o'i hamser i gyfeilio i'r côr ar yr organ.

Perfformiodd Blwyddyn 1 a 2 sioe o'r enw 'Crud Cledwyn', sef stori am grŵp o blant o Gymru yn chwilio am breseb newydd i'r baban Iesu. Cafodd y plant lawer o hwyl yn canu, yn gwisgo i'fyny ac yn cymryd rhan yn y sioe.

Mae'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi bod wrthi'n brysur yn dysgu am stori'r Nadolig a chafodd eu rhieni wledd o ganu a llefaru yn eu cyngerdd Nadolig.

Blwyddyn 4 – Garddio

Bu Blwyddyn 4 yn brysur yn garddio pan gawsant gyfle i ofalu am ardaloedd bywyd gwyllt yr ysgol. Roedden nhw'n paratoi bwyd i'r adar yn ogystal â pharatoi llwybr cerdded newydd yn yr ardd. Diolch i Mrs Meriel Jones am ei brwdfrydedd wrth ddatblygu sgiliau garddio'r plant.

Comenius

Ymwelodd cynrychiolwyr o Sweden, Romania a'r Alban â'r ysgol y tymor hwn fel rhan o Brosiect Comenius. Cafodd ein hymwelwyr gyfle gwych i ddysgu am ein dulliau dysgu a'n diwylliant. Yn ystod eu hymweliad, cawsant gyfle i gyfarfod â Maer y Barri a chael eu tywys o amgylch y senedd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Diolch iddynt am roi o'u hamser.

Ymweliadau

Ymwelodd 40 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar o Gaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf â'r Uned Blynyddoedd Cynnar hirsefydledig yn ddiweddar i arsylwi'r pennaeth a'r staff a rhannu arfer da. Cafodd yr ymwelwyr noson addysgiadol iawn.

Twmpath Dawns

Trefnodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon noson hwyliog o ddawnsio a chymdeithas. Cafodd bawb amser gwych yn dawnio i gerddoriaeth draddodiadol Gymreig. Diolch i bawb a gyfrannodd at y noson ac am holl waith caled y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn ystod y tymor.

Merched y Wawr Bro Radur

Noson Nadolig

I lawer o gymdeithasau, a ninnau Ferched y Wawr yn eu plith, un o'r tasgau anoddaf yw ceisio penderfynu sut i ddathlu'r Nadolig. I wneud pethau'n waeth, mae'n rhanbarth ni yn cynnal ei Noson Garolau ar nos Lun cyntaf y mis, yn ein man cyfarfod ni, a ninnau'n dilyn ar y nos Fercher.

Dros y Nadoligau, rym ni wedi bwyta bwyd nes iddo ddod mas o'n clustiau, wedi trefnu blodau nes blingo'r ardd o'i gwyrddni, a gwneud blychau cain nes ein bod ni'n Blw-tac i gyd. Ond y nosweithiau gorau yw gwranddo ar gerddorion dawnus yn sôn am eu dewis nhw o gerddoriaeth yr Wyl. Eleni, am y tro cyntaf imi gofio, fuodd na ddim pendroni, enwodd un o'n haelodau gôr Owen Saer, Bechgyn Bro Taf, ac fe gofiodd pawb am weld y dynion glân ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn cystadlu am y tro cynta. A dyna'r penderfyniad wedi'i wneud.

Cawsom noson arbennig iawn: rhaglen wedi'i threfnu'n ddoeth a chelfydd a chanu gwefreiddiol. Disgwyliem gyngerdd Nadolig ond pan drawon nhw *Teg wawriodd*, un o garolau plygeiniau sir Drefaldwyn roedden ni'n gwybod y caen ni wledd. Yr hyn oedd yn arbennig oedd eu bod yn canu yn yr un arddull â'r hen garolwyr, digon o lais a digon o galon. Roedd yr hen gantorion yn ffermwyr yn gwisgo eu dillad dydd Sul ond roedden nhw'n dra gwahanol i siwtiau parch *mod* y Dinasyddion. Roedd yr hen rai'n defnyddio eu copi-bwces oedd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ac yn canu wyth i bymtheg o benillion. Doedd dim darn o bapur gan y rhai *mod* oedd yn ddigon call i ganu tri neu bedwar pennill yn unig. Roedd y geiriau ar eu cof a'u dehongliadau yn ystyrion ac yn ysbrydolus. Roedd y bechgyn yr un mor llwyddiannus yn canu darnau meddylgar tawel yn null yr hen fynachod, a'r gynulleidfa wedi'u gwefreiddio ganddynt.

Roedd yn hyfryd hefyd i weld dynion ifainc yn barod i ganu unawdau ac i ddarllen yn gyhoeddus. Diolch hefyd i aelodau Merched y Wawr a gyfrannodd mor hael at y bwyd.

Mary Wiliam

Ennill Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i gyn ddisgybl o Ysgol Glantaf, sef Owen Jones, gynt o'r Eglwys Newydd ac ail fab Alan a Christine Jones. Enillodd ysgoloriaeth werthfawr Sefydliad Niwrolegol Seland Newydd ym Mhrifysgol Otago, Dunedin, Seland Newydd i astudio Seicoleg ar gyfer ei ddoethuriaeth. Dwy ysgoloriaeth yn unig a ddyfarnwyd eleni.

Mae un arall o gyn ddisgyblion Ysgol Glantaf yn byw yn Dunedin hefyd sef Sioned Harold (Guy gynt) a'i theulu. Cyfarchion Y Dinesydd atyn nhw.

Llwyddiant Chris



Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd CBAC seremoni yng Nghaerdydd i anrhydeddu dros 40 o bobl ifanc Cymru a gyflawnodd gamp yn eu harholiadau Safon A yn 2008. Yn eu plith, roedd Christopher Kelly, Rhiwbeina, disgybl yn Ysgol Glantaf ar y pryd ond sy'n awr yn astudio Peirianeg Biofeddygol yn St Edmunds Hall Rhydychen. Dywed Chris iddo fwyhau'r profiad o sefyll ei arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Meddai Mrs Rhiannon Lloyd pennaeth Ysgol Glantaf amdano: "Rydym yn ymfalchio yn llwyddiant Christopher. Roedd yn ddisgybl arbennig a wnaeth gyfraniad sylweddol i fywyd yr ysgol y tu fas i'r ystafell ddosbarth hefyd." Llongyfarchiadau a phob llwyddiant iddo.

Newyddion

Ymdeoliad hir a hapus i Gerwyn Williams, Pennaeth Ysgol Gymraeg Gwaelod y Garth.

Cystadleuaeth Texaco Bydd Ben Creighton Griffiths yn un o'r pum cerddor ifanc, dawnus fydd yn cystadlu ar lwyfan Neuadd Dewi Sant ar 7 Mawrth yn rownd derfynol cystadleuaeth Texaco Cerddor Ifanc Cymru 2009. Pob lwc iddo.

Jonathan Richards, MBA; BSc.(Hons.)

Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol

Arbenigo mewn darparu cyngor ariannol diduedd yn y meysydd canlynol:

Cynilion a Buddsoddiadau
(gan gynnwys Cronfa
Ymddiriedolaeth Plant a
chynllunio ar gyfer ffioedd
ysgol/prifysgol)

Cynllunio Ymdeoliad a Diogelu

(o Yswiriant Bywyd i Salwch
Difrifol, o Ailosod Cyflog i
Ddiswyddiad).

ebost: jrichards10@sky.com

Ffôn Symudol: 07957 140650



www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Cynlluniau Gofal

Hanner Tymor Chwefror

Fe fydd 3 Cynllun Gofal yn rhedeg yn ystod wythnos Hanner Tymor – Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol y Berllan Deg. Bydd llu o weithgareddau difyr wedi'u trefnu a fe fydd trip i'r sinema ar y dydd Mercher. Rhaid cofrestru o flaen llaw. Am wybodaeth cysylltwch â Gwyneth – gwyneth@mentercaerdydd.org

DISCO DISTAW (SILENT DISCO)

Nos Sadwrn, Chwefror 28
The Point, Sgwâr Mount Stuart,
Bae Caerdydd
Drysau'n agor am 9pm
Disco Distaw Dwyieithog
Cyntaf Cymru!!

Tocynnau: £7 o flaen llaw £9 wrth y drws.
Swyddfa Docynnau: 029 20 460873
www.thepointcardiffbay.com
Dewch i brofi noson mas
wahanol iawn!!!

Cwis Tafarn Cymraeg

Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Chwefror 22 yn y Mochyn Du. 8pm. Croeso i bawb

Penwythnos Teulu i Langrannog Ebrill 3-5, 2009

Penwythnos penigamp i'r teulu cyfan. Cyfle i brofi llu o weithgareddau. Addas i rieni Cymraeg a Di-Gymraeg. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Angharad – angharad@mentercaerdydd.org

Cwrs Coginio gyda Padrig Jones

Cyn cogydd a perchennog Le Gallois yn dangos a rhannu cyfrinachon y gegin gan obeithio cael digon o hwyl wrth neud!!

4 wythnos

Pob nos Fercher 7 – 9 pm
Ysgol Plasmawr, Tyllgoed

Cychwyn Nos Fercher 25 Chwefror
Cost £60

Dim ond lle i 12 felly cyntaf i'r felin.....
Er mwyn cofrestru cysylltwch ag Angharad
Thomas 02920 565658 neu
angharad@MenterCaerdydd.org



Diwrnod Rygbi'r Teulu

14 Chwefror 2009
21 Mawrth 2009

Dewch i wylu'r gêmiau rhyngwladol a mi wnawn ni gadw'r pant yn hapus!
Hwyl i'r oedolion - bar, bwyd ysgafn, Sgrin yn y bar. Hwyl i'r plant - chwarae meddal, Playstations, Wii, Castell neidio, Cornel celf, Peintio gwynebau

Canolfan Hamdden Pentwyn
15.30 - 18.30. £3 y person (gan
gynnwys plant a babis).

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Gweld gwleidyddion wrth eu gwaith

Fel rhan o raglen amrywiol y Fagloriaeth Gymreig, cawsom gwmni pedwar aelod o'r cynulliad: Andrew R T Davies o'r Blaid Geidwadol, Jenny Randerson o'r Democratiaid Rhyddfrydol, Helen Mary Jones yn cynrychioli Plaid Cymru, a Carwyn Jones ar ran y Blaid Llafur. Ben bore Llun yn Rhagfyr deffrowyd y gwleidyddion gan res hir o gwestiynau gan y chweched dosbarth ar bynciau cyfoes, megis ffioedd Prifysgol, Cynllun Brewcwest ysgolion, cydweithio o fewn y pleidiau gwleidyddol a llawer mwy. Profiad gwerthfawr oedd gweld y pedwar AC yn dadlau eu hachos a chynnig barn.

Enwebu Hyfforddwr y Flwyddyn

Ym mis Rhagfyr cafodd Sian Elin Griffiths, pennaeth cyfnod allweddol 4 ac athrawes fathemateg yn yr Ysgol, ei henwebu ar gyfer gwobrau 'Hyfforddwr y flwyddyn'. Roedd yr enwebiad yn gydnabyddiaeth o'i chyfraniad at hybu rhwyfio ymhlith pobl ifanc. Dyma flas o rai o'i llwyddiannau: sefydlodd Glwb Rhwyfio Plasmawr gyda chymorth Clwb Rhwyfio Llandaf; mae 2 ddisgybl bellach wedi cynrychioli Cymru Home International haf 2008, ac un ohonynt yn gobeithio cystadlu yng ngêmiau Paralympaidd 2012.

Cystadleuaeth Ddringo Ysgolion Caerdydd

Yn ddiweddar, cipiodd tîm dringo'r Ysgol Gwpan dringo Ysgolion Caerdydd, mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Andy Meek o Ganolfan ddringo Awyr Agored Storey Arms. Dyma aelodau'r tîm buddugol: Derry O'Toole, Lowri Van Steelant, Nicola Powdrill, Marianne Dupuy, Bethany Johns, Julie Davies, Steffan Jacob, Cai Wilshaw, Hwae Rees, Emily Cross, Brianne Evans, Zak Lee Green, Ewan Williams, Ieuan Castle.

Cyngerdd Latch

Roedd awyrgylch hyfryd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar noson cyngerdd mawreddog LATCH ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r Ysgol wedi ymroi ers mis Medi i godi arian ar gyfer yr elusen ac rydym eisoes wedi codi dros £4,500. Diolch i'r ysgolion cynradd, staff, disgyblion a chyn ddisgyblion a gyfrannodd at y noson arbennig hon.

CRAP: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Plasmawr

Mae gweithgareddau'r Gymdeithas wedi bod yn llwyddiannus iawn. Derbyniodd y Ffair Nadolig gefnogaeth gan rieni a disgyblion, a llwyddwyd i godi yn agos at £3,500.

Gwobr 'Platinwm' Gwrth-fwlian dinas Caerdydd

Braint oedd derbyn gwobr 'platinwm' yn ystod seremoni 'Caerdydd yn erbyn bwllian' yn ddiweddar. Mae'r wobwr platinwm yn gydnabyddiaeth i'r gwaith arloesol yn yr ysgol i ddelio â bwllian, gan gynnwys gwefan gwrth-fwlian a gwaith parhaus gyda'n hysgolion cynradd.

Ffarwelio a Chroesawu

Tristwch mawr oedd gorfod ffarwelio â Mr Matthew Evans ddiwedd tymor yr Hydref. Bu'n Bennaeth Cynorthwyol yn yr Ysgol ac ef oedd Pennaeth Cynta'r Chweched dosbarth ym Mhlasmawr. Hoffwn ddyuno pob hwyl iddo yn ei swydd newydd fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Gymunedol Garth Olwg. Dymunwn yn dda hefyd i Mr Aled James sy'n cymryd at yr awennau gyda'r chweched dosbarth. Hoffem groesawu Mr Edward Jones yn Ddirprwy Bennaeth newydd i'r Ysgol. Daw Mr Jones â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth i Blasmawr yn dilyn ei gyfnod gyda'r Cynulliad ac yn fwy diweddar fel Prif Drefnydd Awdurdod Addysg Dinas Caerdydd.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i Erin Gough ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yn nhîm hoci dan 16 Cymru – pob lwc iddi!

Mathemateg

Llongyfarchiadau mawr i 3 disgybl o flwyddyn 10 (Indeg Williams, Cerys Lane a Haf Davies) a 4 disgybl o flwyddyn 9 (Tomos Roblin, Angharad Butler-Rees, Arooj Khan, Elizabeth Bahor) a gafodd eu henwebu i fynychu cyfres o ddarlithoedd arbenigol. Cynhelir y darlithoedd sef, 'Royal Institution Mathematics Masterclasses for Young People' ym Mhrifysgol Morgannwg ar foreau Sadwrn yn ystod y Tymor hwn.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Prys a Sioned Dafydd, Pontcanna ar enedigaeth Cadi Dafydd yn Ysbyty'r Brifysgol ar 19 Hydref, chwaer fach i Lewys ac wyres i Elinor Davies, Llandaf.

Llongyfarchiadau i Sian a Michael (Llundain) ar enedigaeth Gwen Matilda Booth ar 17 Rhagfyr – wyres arall i Ray a John Phillips.

Llongyfarchiadau i Aled a Jenny James (ger Warwick) ar enedigaeth Cerys Abigail ar 22 Rhagfyr. Wyres fach arall i Val a Bryan, Llandaf.

Llongyfarchiadau i Alun a Tracey, Parc Victoria ar enedigaeth Nia Elizabeth ac i Elen a Rhodri, Llandaf ar enedigaeth Lilwen Myfi, chwaer i Gwenlli Tegai, dwy wyres newydd i Mair a Gwynndaf Owen, Llandaf.

Côr Cymru

Dymuniadau gorau i'r corau o Gaerdydd sy'n cystadlu yn Aberystwyth ar 20 - 22 Chwefror sef Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, Côr Merched Cantata, Côrddydd, Côr CF1 a Bechgyn Bro Taf.

Bydd y rownd derfynol ar Ebrill 5ed.

Beicio dros glefyd yr arenau

Gall clywed eich bod yn dioddef o glefyd arenau difrifol fod yn drobwynt yn eich bywyd. Mae mwy na mil o gleifion yng Nghymru'n mynychu un o'r tair canolfan ar ddeg ar draws y wlad i gael triniaeth haemodialysis rheolaidd. Er y cynnydd yn y ddarpariaeth dros y blynyddoedd olaf, mae rhai'n dal i orfod teithio am awr bob ffordd i gyrraedd triniaeth o bedair awr, deirgwaith yr wythnos. Rhaid i Gymru gael mwy o unedau dialysis i leihau baich y teithio, a dod â thriniaeth hanfodol yn nes at gartref cleifion.

Trwy'r fenter 'Beicio er Gwell Clefyd Arenau 2009' bydd tri o arbenigwyr ar yr arenau yn Ysgol Feddygol Cymru (Yr Athro Aled Phillips, Dr Steve Riley a'r Dr Kieron Donovan), yn ceisio codi ymwybyddiaeth am yr anawsterau a phwysigrwydd y clefyd yng ngofal iechyd yn gyffredinol. Ar yr un pryd, maent yn awyddus i gefnogi'r elusen 'Sefydliad Arenau Cymru' yn ariannol. Ar eu taith o 350 o filltiroedd byddant yn ymweld â phob uned dialysis yng Nghymru i danlinellu'r siwrnai hir ac anodd a wneir gan gymaint o'u cleifion.

Erfyniwn am eich cefnogaeth hael i'r ymgyrch. Bydd pob ceiniog yn rhoi hwb i'n coesau oedrannus i droi'r pedalau ar y daith o amgylch Cymru. Mae'n hawdd noddi ar y we neu gyda cherdyn.

Ewch i: <http://www.justgiving.com/ckdwales>

Os am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Athro Aled O. Phillips, Athrofa Nephroleg, Ysgol Feddygol, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Gweinydddydd/Derbynnydd
£11,905 - £16,319 y flwyddyn
Caerdydd



Wedi lleoli yn ein swyddfa brysur yng Nghaerdydd, chi fydd y cyswllt cyntaf i ymwelwyr a'r rhai sy'n ffonio, gan roi ymateb cyfeillgar i gynorthwyo pobl gyda'u hymholiadau. Yn y swydd amrywiol hon, byddwch hefyd yn cyflawni ystod eang o dasgau swyddfa sy'n cynnwys cofnodi data, archebu ystafelloedd a gweud trefniadau teithio, teipio ac archebu deunyddiau swyddfa.

Byddwch yn weinydddydd swyddfa profiadol, gyda sgiliau teipio cywir ac ymwybyddiaeth dda o TG sylfaenol swyddfa fel pecynnau prosesu geiriau a thaenlenni. Byddwch wedi arfer â gweithio fel rhan o dîm a bydd gennych sgiliau cyfathrebu ardderchog ac yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg.

Am wybodaeth bellach ac i ymgeisio ar-lein, ewch i

www.cronfaloterifawr.org.uk gan ddyfynnu'r cyfeirnod BIG 09/803.

Dyddiad cau 20ain Chwefror 2009.

Croesawn yn gadarnhaol geisiadau gan bobl ag anabledd sydd wedi tangynrychioli ymhlith ein gweithlu.

I adlewyrchu ein cymuned a'n gweithlu amrywiol, rydym yn awyddus iawn i annog mwy o ymgeiswyr gwrywaidd i ymgeisio er mwyn i ni geisio cyflawni cydbwysedd gwell o fewn ein gweithlu.

Cyfarfodydd Cymrodorion Caerdydd

Ar 5 Rhagfyr, yn festri Capel Minny Street, cafwyd arolwg arbennig o Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd dan lywyddiaeth y Parchedig Ddr. R. Alun Evans.

Roedd tyrfa o tua 160,000 o bobl wedi mynychu'r Eisteddfod eleni – 28,000 ar y Dydd Gwener, y dorf fwyaf ar un diwrnod ers blynyddoedd. Mae'r amrywiaeth o bebyll a gweithgareddau ar y maes yn cynyddu bob blwyddyn. Problem sy'n codi yw bod nifer y manau yng Nghymru a all estyn gwahoddiad i'w mor fawr, yn prinhau.

Un o lwyddiannau ysgubol Eisteddfod Caerdydd fu'r cyngherddau, ac atgoffodd Rob Nichols ni o'r arlwy - perfformiad o Offeren Verdi gyda Bryn Terfel a sêr eraill byd yr opera a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC. Wedyn, 'Grav...Yma o Hyd', 'Yr C Ffactor', a pherfformiad o 'Dewi Sant' Karl Jenkins gan Gôr yr Eisteddfod dan arweiniad y cyfansoddwr ac Alun Guy. Nosweithiau i'w cofio.

Betsan Williams yw Swyddog marchnata'r Eisteddfod a chawsom gyfraniad bywiog ganddi yn ogystal â ffilm ddiddorol. Soniodd Betsan am bwysigrwydd y Ganolfan Croeso a'i swyddogaeth - yn arbennig i ymwelwyr dieithr. Y rhyfeddod mwyaf oedd gwybod bod y tywyswyr rhyngddynt yn siarad tri deg o wahanol ieithoedd!

Faint ohonom sy'n gwerthfawrogi mor anhepgor yw'r stiwardiaid i lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol? Peredur Evans oedd y Prif Stiward ac ychydig iawn o gwsg a gafodd drwy'r wythnos! Diolch i Peredur a Betsan am eu gwaith. Noson dda!

Y siaradwr gwadd yn y Tabernacl, yr Ais, ar 6 Chwefror fydd y Dr Huw Thomas a'r testun "Breuddwyd y Llyfrau Gleision - twf addysg Gymraeg".

Rhiannon Gregory

Cylch Meithrin a Ti a Fi Radur

Prysur iawn fu diwedd tymor y Gaeaf gyda'r wythnosau olaf yn llawn hwyl a sbri wrth baratoi ar gyfer y Nadolig. Yn ystod yr wythnos olaf, daeth Sion Corn i ymweld â'r plant a chyflwynwyd cyngerdd hyfryd i'r rhieni. Bu'n gyfle hefyd i'r teuluoedd gymdeithasu dros banded mins pei. Diolch i Anti Angharad ac Anti Jade a'r pwyllgor am drefnu a pharatoi.

Mae'n flwyddyn newydd a phlant bach y cylch yn dysgu am 'natur' – blodau, tywydd, y tir, sut mae pethau'n tyfu ac ati. Mae'r gwaiath crefft yn wledd i lygaid y rhieni.

Mae'n dymor newydd hefyd i gylch Ti a Fi ar fore Gwener (09.15 – 10.45 - tymor ysgol) yn ystafelloedd yr Hen Eglwys, Heol y Parc, Radur. Mae'r grŵp bach yn cynyddu a'r

CROESAIR Rhif 90 gan Rhian Williams


Atebion i: 22, Heol Cae Rhys,
Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN
i gyrraedd erbyn
20 Chwefror 2009.

Ar Draws

1. Troedwisg yn swnio'n sionc (5)
4. Cynnnydd o ffin y tân (7)
8. Aderyn sy'n gwybod ôl onnen wedi cwmpo (7,1,5)
9. Iâr swil yn chwalu bwyd i'r gaeaf (7)
10. 'Rhyw newydd wyrth o'i angau _____
A ddaw o hyd i'r golau.' (R.W.) (4)
12. Clwb rygbi ieuencid Caerdydd -
Edward bach, mae'n gêm wahanol! (6)
13. 'Gweld yr anfeidol ddywfol fod
Yn _____ natur dyn.' (W.W) (6)
16. Rhwyd i ddechrau mwydro ambell gaseg
lwyd (4)
18. Alun bach yn newid amcan y calendr
ffeithiau (7)
21. Y porthladd i gladdu bara du e.e. (13)
22. Darn eog yn creu anifail arall (7)
23. Mae Mal wedi golli'i ben yn Rio yn rasio
ceir (5)

I Lawr

1. Ffug docio'r hesg a'r llus (5)
2. Rhwyd i'r milgi gollodd ei ben yn y môr
(7)
3. Daw deryn ar dro i efelychu (8)
4. Ynfyty ag urddas—dyna lol! (4)
5. Urddasol wobwr heb ddechrau ennill (4)
6. Buwch yn rhan o garfan nerfus (5)
7. Cerdded ac aros mewn amser (7)



11. Mae galw mawr am un anwadad (8)
12. Cywasgu Cymro tlawd i fod yn aelod
anrhydeddus (7)
14. A yw sedd Leon i wneud â'r cynulliad?
(6)
15. Hanner gair lluosog heb amheuaeth yn
fedrys (6)
17. Diwygio ryw gawell sigledig (5)
19. 150 yn ulrain a dwyn (5)
20. Dim gŵr mewn ffwrn dân (4)

Atebion Croesair Rhif 89

Ar draws: 5 Sicr. 7 Wydd e' mewn lle. 8 Llawenychu. 10 Ehud. 11 Dysg. 13 Teyrnged. 15 Glaslanc. 16 Gyda. 17 Seld. 18 Caniatad. 21 Adeiladwyd. 22 Cnwdd.

I Lawr: 1 Gwall. 2 Wele. 3 Melystru 4 Cnau 5 Serennog. 6 Cynulleidfa. 9 Af ymlaen yn. 12 Gosodiad. 14 Yn cynilo. 18 Crea. 19 Amdo. 20 Dadl.

Derbyniwyd 12 ymgais - 7 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Peter a Dafydd Williams ar farwolaeth eu mam yn Ninbych y Pysgod ar 14 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych y Pysgod ac yn Amlogsgfa Parc Gwyn.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Lena Williams a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 16 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlogsgfa'r Ddraenen ar 30 Rhagfyr.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Tom Phillips, Llandaf, gynt o Gaerfyrddin. Bu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 4 Rhagfyr a chynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Llangrallo ar 12 Rhagfyr.

babis a'r plant bach yn cael cyfle i chwarae a'r rhieni / gwarchodwyr yn ymlacio dros banded! Croeso i bawb.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Rhian 02920842038 neu ar

joelandrhian@ntlworld.com

Cydymdeimlwn â Beatrice Pryce a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Gwyndaf Pryce ar ôl salwch hir, ar 7 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Beulah Rhiwbeina ar 19 Rhagfyr.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Gruffydd Rowlands, Cyncoed. Bu farw dros gyfnod y Nadolig yng Nghaerdydd yn 81 oed. Brodor o ardal Trawsfynydd oedd ac yn frawd i'r nofelydd John Rowlands.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Glenys Ormond Thomas, gweddw'r bardd John Ormond. Bu farw'n dawel Nos Galan yn Ysbyty'r Brifysgol. Bu'r angladd yn Amlogsgfa'r Ddraenen ar 15 Ionawr ac i ddilyn cynhaliwyd cyfarfod coffa iddi yn Eglwys y Methodistiaid, Heol Conwy, Treganna.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Dewi Bonner, gynt o Gilfach Goch. Bu farw'n dawel yn ei gwsg yn 94 oed ar 15 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlogsgfa'r Ddraenen ar 24 Ionawr.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Alun Morgan, Rhiwbeina. Bu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 6 Ionawr. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina ar 22 Ionawr ac yna'n Amlogsgfa'r Ddraenen.

Newyddion o'r Eglwys

Blwyddyn Newydd, Gofalaeth
Newydd, Gweinidog Newydd



Ym mis Ionawr, dechreuodd y Parchedig D Kevin Davies B.Th. fel gweinidog ar ofalaeth newydd ym Mro Morgannwg - Tabernacl, y Barri a Bethel, Penarth. Mae ganddo ef a'i wraig Ann bedwar o blant. Oherwydd bod dau yn dal yn yr ysgol, ni fydd y teulu'n symud i'r ardal ar hyn o bryd. Bu'r Parchedig Kevin Davies yn weinidog yn Saron Llangeler, Carmel Prengwyn a Soar Penboyr ers y flwyddyn 2000, ei ofalaeth gyntaf. Mae llawer yn ei gofio fel perchen siop flodau yn Aberystwyth ac fel un oedd yn weithgar yn eglwys Baker Street. Pan benderfynodd gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth, cafodd arweiniad dau o gyn-weinidogion y Tabernacl, Y Parchedigion Eifion Powell a Gareth Watts yng Ngholeg yr Annibynwyr, Aberystwyth. Mae'n olynu'r Parchedigion Casi M Jones yn y Barri ac Alan Pickard ym Mhenarth. Edrychwn ymlaen at ei groesawu i fwrlwm bywyd y fro dros y misoedd nesaf.

Ymateb i alwad Alpha!

Pan gefais alwad ffôn oddi wrth ffrind yn fy ngwahodd i ymuno â'r cwrs Alpha, rhaid cyfaddef, nad oeddwn yn hollol sicr beth oedd Alpha. Ystyriaf fy hun yn Gristion, wedi'i magu yn y traddodiad Methodistaidd ac felly'n croesawu'r cyfle i drafod materion hanfodol fy ffydd. Penderfynais ymuno i weld dros fy hun!

Amcan y cwrs oedd cyflwyno ffeithiau sylfaenol y ffydd Gristnogol dros gyfnod o 10 wythnos. Ond, yn fwy na hyn mae'n gyfle i drafod gyda chriw o bobl - sy'n ffrindiau bellach - bynciau Beiblaidd sy'n berthnasol i ni heddiw.. Bob wythnos, edrychwn ymlaen at gymdeithasu dros bryd o fwyd a gwyllo fideo ar destun y noson cyn cael trafodaeth diflewyn ar dafod, dros banded a bisgedi - nosweithiau hwyllog dros ben!

Gallaf argymhell y cwrs - ni chewch eich siomi.

Am fwy o fanylion am y cwrs, ffoniwch 20757786 neu e-bostiwch Sian128@aol.com

Eglwys Minny Street

Cydymdeimlo

Ar 20 Ionawr bu farw Mrs Ruby Profit yn dawel yn yr ysbyty. Cynhaliwyd yr angladd ar 30 Ionawr yng Nghapel Briwnant. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Marged ac Elinor a'u teuluoedd.

Croeso

Croeso i dri babi newydd: **Tomos Iestyn Harries** - mab i Geraint a Claire, Llundain, wŷr arall i Margaret a Justin; **Rhodri Ifan Jones** - mab i Eirian a Richard (Penylan) a **Gwen Matilda Booth** - merch i Siân a Michael (Llundain), wyres i Ray a John Phillips. Dymuniadau gorau i'r tri theulu.

Gwasanaethau'r Nadolig

Ar ddechrau tymor yr adfent, cyflwynodd y plantos lleiaf hanes Joram y bugail ac yna, wythnos yn ddiweddarach, bu'r plant oed cynradd yn sôn am anrheg arbennig ar ddull "pasio'r parcel". Daeth yr angel, y seren, y gwair a'r baban i'r golwg yn y pen draw. Ar ôl yr oedfa, daeth Sion Corn i ymweld â'r plant yn eu parti. Am dair noson, cyflwynodd aelodau'r eglwys Ddrama'r Geni ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Trefnwyd ein Naw Llith a Charol blynyddol gan Marian Lake a Meudwen Davies. Drwy gydol Suliau Rhagfyr cawsom ein harwain drwy ddarlenniadau'r Adfent gan ein gweinidog a chodwyd baner yn wythnosol. Daeth cyfle i ddeall o'r newydd gefndir, digwyddiad a her y Nadolig. Diolch i Owain am fentro gwneud rhywbeth gwahanol yn Adfent 2008 ac i'r rhai fu'n ei gynorthwyo i ddylunio a chreu'r pedair baner. Cynhaliwyd gwasanaeth noswyl y Nadolig a'n gweinidog oedd yn pregethu yn y gwasanaeth undebol fore'r Nadolig yn eglwys y Crwys.

Gwaith Elusennol

Dros Suliau'r Adfent, casglwyd anrhegion i'w dosbarthu i bobl ddigartref y ddinas. Lluniodd y plant a'r ieuencid gardiau i fynd gyda'r rhain. Hefyd, cyflwynodd bob plentyn £1 yr un yn hytrach na derbyn anrheg yn eu parti. Defnyddiwyd yr arian i brynu deunyddiau i ysgolion drwy gynllun "Anrheg Cymorth" Cymorth Cristnogol. Bydd Cymorth Cristnogol, ac yn arbennig Apêl De Affrica Undeb yr Annibynwyr, yn elwa o gyfraniadau ein Coeden Cyfarch - cyfle i aelodau gyfarch ei gilydd drwy roi neges ar goeden yn y capel yn hytrach nag anfon cardiau unigol a rhoi cyfraniad ariannol.

Y Gymdeithas

Cafwyd noson ddiffr yng nghwmni'r Athro Prys Morgan pan gafwyd anerchiad ar Enwau Teulu'r Cymry. John Albert Evans a Dyfrig Parri fu'n llywio dathliadau'r Nadolig a John oedd arweinydd y daith gerdded ddiwedd Rhagfyr o Landaf i Bontcanna. Nos Fawrth gyntaf 2009 atgoffodd Siân Parry-Jones,



Baner Adfent



Drama'r Geni ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia

Cyngor Caerdydd yr aelodau am y ddinas fel ag yr oedd a'r newidiadau a ddigwyddodd dros y blynyddoedd. Cawsom hefyd glywed am gynlluniau cynhyrfus datblygu amgueddfa Stori Caerdydd. Pythefnos yn ddiweddarach, dau o'n cyd-aelodau, Margaret Davies ac Eurig Williams, fu'n rhoi cipolwg i ni ar eu gwaith bob dydd. Aeth Margaret â ni i fyd y llysoedd a'i rôl yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg. I fyd pensaernïaeth yr aeth Eurig â ni gan ganolbwyntio ar atgyweirio a chadwraeth hen adeiladau. Disgrifiodd ei waith yn adnewyddu Plasty Llanerchaeron. Cynhaliwyd Plygain bendithiol yn Eglwys Sant Teilo, Sain Ffagan dan arweiniad y Parchedig Ddr R. Alun Evans ar yr ail Sul yn Ionawr, a chafwyd cyfraniadau gan amryw o'r aelodau a chyfeillion.

Colli Dorothy

Yn annisgwyl, bu farw Dorothy Blundell, Pantmawr ddydd Sadwrn, 6 Rhagfyr. Cofiw'n amdani fel dysgwraig brofiadol ac un o ffyddloniaid Yr Awr Hapus, Bore Sadwrn Misol Hapus a Ph'nawn Sul Hapus. Daeth cynulleidfau niferus i'w hangladd ym Methel, Heol Penlline ar 16 Rhagfyr. Athrawes oedd Dorothy cyn ymddeol ac roedd wedi bod yn yr un dosbarth ysgol â Richard Burton, yr actor byd enwog.

Cynhaliwyd y parti Santes Dwynwen eleni ar 24 Ionawr yn nhŷ John a Thelma Dann. Roedd Dorothy yn rhan o'r cwmni y llynedd.

Bethel, Rhiwbeina

Bu farw tri o'r ffyddloniaid fis Rhagfyr. Ddechrau'r mis bu farw Mrs Hazel Williams a ddaeth yn aelod wedi iddi hi a'i phriod Ken symud i Riwbina.. Roedd hi'n wraig hynod o boblogaidd ac yn uchel ei pharch. Yna bu farw Mr. R. Emrys Jones, Sully, a fu'n hynod o ffyddlon ers iddo symud i Riwbina. Ein Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan fu'n gwasanaethu yn y ddwy angladd. Dydd Nadolig, bu farw Miss Nesta Davies, aelod yn y Crwys ond un oedd yn mwynhau ymuno yng ngweithgareddau Bethel.

Cafwyd Oedfa Nadolig ardderchog gydag aelodau'r Ysgol Sul a'r oedolion yn cymryd rhan. Diolchodd y Gweinidog i Mrs Gwenda Francis am drefnu'r oedfa, i Mr Gwilym Roberts am hyfforddi'r côr, i'r athrawesau am hyfforddi'r plant ac i Mrs Eilonwy Jones am gyfeilio. Ar ôl yr oedfa, daeth Sion Corn i barti'r plant. Fel arfer cynhaliwyd oedfa Noswyl Nadolig dan ofal Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Croesawyd cynrychiolwyr Eglwysi Cymraeg Caerdydd i Fethel i oedfa ar y thema 'Cymoda Dy Bobl'. Trefnwyd yr oedfa oedd yn rhan o wythnos weddi dros Undod Cristnogol, gan ein Gweinidog. Un o aelodau Bethel, Mr Fred Dyer, fydd llywydd newydd Cyngr Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pob dymuniad da iddo.

Ebeneser, Heol Siarl

Menter Ysgolion

Braint oedd cael cwmni Gwen Emyr ac Adam Colman ar 8 Rhagfyr i sôn am eu gwaith i'r elusen hon yn ysgolion ardal Caerdydd a'r cyffiniau. Y bwriad yw magu diddordeb plant yn y Beibl a'i gymhwyso i fywyd plant yn ein cenedlaeth bresennol mewn modd gweledol, perthnasol, creadigol, addysgiadol a Beiblaidd. Mae'r gwaith yn datblygu o flwyddyn i flwyddyn ac ers ei sefydlu ychydig dros bedair blynedd yn ôl mae'r tîm wedi tyfu i bump o weithwyr brwdfrydig iawn. Ewch i'w gwefan, www.menterysgolion.org.uk i ddysgu mwy amdanynt, ac efallai ystyried cyfrannu at waith yr elusen Gristnogol hon.

Gwasanaethau Nadolig

Unwaith eto eleni cawsom gyfle fel teulu'r ffydd yn Ebeneser i ddathlu Gŵyl y Nadolig arbennig a bendithiol iawn. Rhoddwyd i ni sylfaen gadarn i ddathlu gwir ystyr y Nadolig. Cyflwyniad pur wahanol gafwyd gan yr ieuencid eleni drwy gyfrwng DVD a chyflwyno gwybodaeth am fasnach cynhyrchu dillad rhai o siopau mwyaf ein stryd fawr. Daeth eu cyflwyniad i ben gyda sioe ffasiynau a rhai o'r merched ifanc yn rhodio llwybrau mewn gwisgoedd masnach deg.

Cafwyd gwledd o gyflwyniad gan y plant unwaith eto eleni. Roedd eu cyflwyniad yn llonni'r galon ac yn ein harwain at ddrws y stabl. Dathlu drwy oedfa carol a channwyll

Capel y Crwys

Y Gorlan.

Cynhaliwyd dau gyfarfod gwerthfawr cyn y Nadolig i'n harwain i mewn i dymor yr adfent. Rob Nicholls oedd y siaradwr gwadd ar 26 Tachwedd a bu'n olrhain ei hanes cerddorol mewn ysgol a choleg ac yn wir ar yr aelwyd gartref. Ei hoff gyfrwng oedd y llais a phleser oedd cael cyfle i wrando ar ei ddewis o leisiau. Ar 17 Rhagfyr cafwyd cyfarfod i ddathlu'r Nadolig, - hosan yn llawn o frethyn cartref a wewyd gan Gwen Holt a'i chynnwys yn llawn o ddanteithion tymhorol.

Y Parchedig Catrin Roberts oedd ein gwraig wadd ar 7 Ionawr. Cyfeiriodd at y tri gŵr doeth yn stori'r Nadolig ac yna ein hatgoffa o'r gywyr doeth sydd wedi cyfrannu cymaint at fywyd Cymru ers y diwygiad Methodistaidd.

Y Gymdeithas

Ar 28 Tachwedd, cawsom sgwrs ddiddorol gan Huw Roberts yn sôn am ei brofiadau ar Daith y Pererin i Sant Iago de Campestele, Sbaen. Nos Sul, 21 Rhagfyr defnyddiodd y Parchedig Ifan Roberts daflunydd i arwain y gynulleidfa drwy'r cyfraniadau llafar yn ystod yr oedfa. Y Gymdeithas o dan arweiniad y Parchedig Lona Roberts oedd yn gyfrifol hefyd am wasanaeth y Flwyddyn Newydd.

Y Grŵp Merched

Dathlwyd y Nadolig gyda swper yn y festri ar 1 Rhagfyr. Lis Foulady oedd wedi paratoi'r bwyd gyda nifer o'r blaenoriaid yn gweini. Cafwyd adloniant gan yr aelodau. Ar 5 Ionawr, Don Llewelyn fu'n sôn am William Evans o Bentyrch a'i bapurau a ddarganfuwyd mewn adfeilion hen siop yn yr ardal. Cawsom ddarlun byw o'r ffordd o fyw oedd yn gyffredin iawn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yr Ysgol Sul.

Cyflwynodd y plant ddrama'r geni fel arfer a daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol. Ffurfiodd Ceri Innes-Parry gôr i ganu carolau mewn cartref i'r henoed ger Llyn y Rhath a bu'r grŵp hefyd yn brysur yn creu anrhegion bychain i'w gwerthu cyn y Nadolig.

wnaeth yr aelodau a chawsom ein hatgoffa eto am 'Waredwr cryf i'r gwan'. Diolch i bawb a gymerodd ran ym mhob gwasanaeth.

Parti Nadolig y plant

Yn dilyn eu gwasanaeth Nadolig cafodd y plant barti yn y festri. Mwynhaodd y plant ambell i gartŵn cyn i Siôn Corn ddod ar ei ymweliad blynyddol. Roedd y plant wrth eu bodd eu bod yn cael agor yr un anrheg bach hwnnw cyn dydd Nadolig.

Canu yn y Capitol

Aeth tua 36 ohonom i ganu carolau yng nghanolfan siopa'r Capitol ar nos Lun, 22 Rhagfyr. Daeth criw o'r plant hŷn i ddal y bwced casglu ar gyfer ein helusen am eleni, sef Apêl De Affrica HIV/AIDS. Llwyddwyd i godi tua £270 ar gyfer yr elusen.

Eglwys Dewi Sant

Bedydd: Ar fore Sul, ychydig cyn y Nadolig, bedyddiwyd Rhodri Wyn, mab Cenydd a Carys Amos. Mae ei frawd, Steffan eisoes yn un o blant yr Ysgol Sul a Mel, ei Dadcu, yn aelod ffyddlon o gôr yr eglwys.

Croesawu: Cynhaliodd Côr y Gleision gyngerdd yn yr eglwys ddechrau Rhagfyr a dyddiau'n ddiweddarach daeth disgyblion, rhieni ac athrawon Ysgol Gymraeg Bro Eirwg i gynnal eu Gwasanaeth Nadolig.

Yn ôl yr arfer, cynhaliodd Undeb Cristnogol UWIC ei wasanaeth Llith a Charol yn Newi Sant a chroesawyd nifer o weithwyr swyddfeydd y Cilgant i wasanaeth awr ginio cyn mwynhau'r bwffe a'r clonc oedd yn dilyn. Trosglwyddwyd y casgliad i Shelter Cymru.

Cyngerdd Adfent: Ar 6 Rhagfyr daeth Côr Caerfyrddin atom er mwyn helpu ein hapêl i adnewyddu'r to. Noson i'w chofio. Dyma'r tro cyntaf i'r côr hwn gael y cyfle i ganu yn ein prifddinas.

Y Côr: Yn ystod y Gwasanaeth Golau Cannwyll o garolau a darlenniadau'r Adfent a'r Gwasanaeth Llith a Charol ar 21 Rhagfyr, cafwyd datganiadau hyfryd gan y côr dan arweiniad David Leggett. Y côr hefyd fu'n arwain y mawl ar Noswyl y Nadolig yn Offeren gyntaf y Nadolig.

Nadolig yr Ysgol Sul: "Pasio'r Parse!" oedd y cyflwyniad y tro hwn wrth i hanes a negeseuon y Nadolig gael eu datgelu fesul haen o bapur lapio!

Cristingl: Paratoi dwsinau o orenau-Cristingl oedd tasg aelodau'r Ysgol Sul a'u hathrawon ddechrau Ionawr- i ddathlu Gŵyl y Seren a rhodd Duw o oleuni i'r holl genhedloedd. Nos Sul, 4 Ionawr, gorymdeithiodd y plant a'r oedolion yng ngolau Canhwylau'r Cristingl gan ganu litwrgi arbennig. Roedd y casgliad tuag at "Cronfa'r Archesgob" er budd plant Cymru. Mentrodd Catrin Davies o'r Ysgol Sul, a'i mam, Erith, greu math unigryw o Gristingl - y mwyaf a welwyd yn Newi Sant.

Y Ddiweddar Mrs. Frances Davies

Trist yw cofnodi marwolaeth Frances Davies. Er yn 93 mlwydd oed, roedd hi'n dal i fod yn un o'r ffyddlonaf a'r siriolaf o'r aelodau. Gwasanaeth o ddiolchgarwch i ddathlu bywyd Frances a gafwyd yn Eglwys Dewi Sant ar 9 Ionawr a'r dyfyr'n dyst i'r llu o gyfeillion oedd ganddi hi a'i gŵr, Y Parchedig Ddr. Vernon Davies.

Yn ei deyrnged iddi, rhoddodd y ficer, Y Parchedig Hywel J. Davies, bortread o wraig hynod amryddawn a fu, yn ystod ei bywyd hir a llawn, yn athrawes gerdd mewn nifer o ysgolion, yn offerynydd medrus ac yn grefftwraig gyffwrain. Teithiodd hi a'i gŵr yn helaeth a buont am gyfnod yn Nassau lle'r enillodd y ddau gymhwyster peilot. Sonia'r ddau'n aml am eu hanturiaethau wrth hedfan dros ynysoedd y Bahamas.

Cofiwn amdani gydag anwylded a chydymdeimlwn yn ddwys â Dr. Vernon, Lisa ei merch a'r teulu oll.

Teyrnged: Tomos Befan Owen



Ar 4 Ionawr 2009 bu farw Tomos yn 31 mlwydd oed yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn leukaemia.

Ganed Tomos yng Nghaerdydd a mynychodd Ysgol Gymraeg Coed y Gof a chapel Salem Treganna. Bu'n amlwg yng ngweithgareddau'r ysgol a'r capel, gan gynnwys cymryd rhannau blaenllaw mewn perfformiadau yn Eisteddfodau'r Urdd ac yn Neuadd Dewi Sant. Ym 1985 symudodd gyda'i deulu i Aberystwyth, a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Gyfun Penweddig. Yn chwarae'r drymiau, bu'n aelod o Gerddorfa Ceredigion a Bandiau Pres Ieuenctid a Thref Aberystwyth Enillodd wobwr gyntaf y gystadleuaeth 'Sylwebydd y Flwyddyn' yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, 1994. Chwaraeodd bêl droed a chriced i dimau amrywiol yn yr ysgol a'r ardal, gan gynnwys Clwb Criced Aberystwyth, a sgorio sawl cant i'r tîm cyntaf. Cafodd lwyddiant hefyd fel chwaraewr tenis, gan gynrychioli Ceredigion.

Dychwelodd Tomos i'r brifddinas i astudio Cymraeg, Hanes Cymru ac Almaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd, a dyfarnwyd iddo radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Rhai wythnosau ar ôl graddio yn Awst 1998, dechreuodd fel ymchwilydd yn Adran Chwaraeon BBC Cymru, a'i ddyrchafu yn gynhyrhydd chwaraeon ymhen tair blynedd pan oedd ond yn 24 oed. Bu'n gynhyrhydd 'Camp Lawn' a 'Cant y Cant' ar Radio Cymru, a rhai o raglenni chwaraeon *Radio Wales* yn cynnwys sylwebaethau ar gêmâu Clwb Criced Morgannwg.

Tra'n fyfyrwr chwaraeodd Tomos i dîm y Brifysgol, a disgleiriodd wedyn fel batiwr i glybiau criced Clwb Ifor Bach yn Nghynghrair Nos Caerdydd, a Salem Treganna.

Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn Salem. Roedd y capel dan ei sang yn ei angladd ar 15 Ionawr, dan arweiniad y Parchg. T. Evan Morgan.

Ers ei farwolaeth cafwyd teyrngedau lu i Tomos yn y Wasg, y cyfryngau, a gwefannau amrywiol, gan gynnwys y BBC a Chlwb Criced Morgannwg, yn canmol ei bersonoliaeth hoffus a'i waith fel cynhyrhydd dawnus.

DIOLCH

Dymuna Huw, Mary, Hywel ac Yvonne ddiolch am y gefnogaeth a gafodd Tomos yn ystod ei salwch. Hefyd, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth, gan gynnwys y negeseuon a'r cyfraniadau ariannol tuag at ymchwil i Leukaemia.

Tabernacl, Caerdydd

Prysurdeb Rhagfyr

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Eirlys Pritchard Jones a fu'n rhannu rhai o arferion Cristingl.

Cynhaliwyd cyngerdd Côr Meibion Tâf a Chôr Merched Canna â Robert Nicholls a Delyth Medi'n arwain. Rhannwyd elw'r noson rhwng Cronfa'r Organ a Chronfa Operation Christmas Child.

Noson o ganu carolau a rhannu atgofion am ddathliadau'r Nadolig oedd noson olaf y Gymdeithas cyn y Nadolig. Bu rhai hefyd yn canu carolau o flaen y capel gan gyfrannu addoliad at seiniau'r stryd y tu allan i'r capel. I orffen tymor y chwiorydd cafwyd pryd o fwyd yng Ngwesty'r Marriott cyn cynnal oedfa yn y festri. Nos Sul, 14 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa'r plant a'r bobl ifanc. Diolch i Siôn Corn am alw heibio.

Bore Coffi

Diolch i Diana Owen a Beryl Eurig am eu croeso i'w haelwydydd.

Cydyndeimlo.

Cofiw'n am amryw o deuluoedd yn eu galar: Helen Jones a'r teulu ar farwolaeth ei mam yng Nghaerfyrddin a Mary Thomas ar farwolaeth ei chwaer. Treuliodd Siân John a'i theulu bythefnos gyda'i thad yn Ysbyty Glan Clwyd, ond bu Mr Elwyn Puw Jones farw noswyl y Nadolig.

Hefyd, bu farw Mrs Enyd Jones, mam Eiri a Deiniol, a gweddwr'r Parchg T. Arfon Jones. Roedd yn gyn-lywydd y Zennana yng Nghymru ac yn bregethwr lleyg cyson. Bu farw ar y cyfandir tra'n ymweld â ffrindiau. Roedd ei hangladd o dan ofal y Parchg John Rice Rowlands.

Lesotho.

Dychwelodd Gwenallt a Non Rees o Lesotho ac ar Sul 11 Ionawr, cafodd yr eglwys gyfle i weld a chlywed yr hanes diweddaraf..

Trwsio'r Organ.

Mae'r gwaith hwn yn debygol o barhau am chwe mis a hefyd yr ymgyrch i chwyddo'r gronfa. Bydd llawer o'r gwaith trwsio pibelli'n cael ei wneud yn ffatri Cwmni Willis.

Salem Treganna

Colli Tomos

Ar ôl brwydr hir a hynod o ddewr, bu farw Tomos Owen, yn 31 oed. Colled enfawr i Huw, Mary, Hywel ac Yvonne, ac rydym i gyd yn meddwl amdanant fel teulu ar yr adeg drist hon.

Clwb y Bobl Ifanc

Bu'r clwb yn bowlïo deg i ddechrau'r flwyddyn newydd ar 23 Ionawr.

Clwb Brecwast

Cyfarfu'r clwb brecwast yn ystod y mis - croeso i rieni a'u babanod i ymuno â ni ddwywaith y mis ar foreau Mercher. Dewch am frecwast a chlonc!

Y Gadwyn

Cawsom noson ddifyr nos Fercher, 21 Ionawr. Daeth tri aelod i sôn am eu milltir sgwâr.

Gwasanaethau'r Nadolig

Cafwyd gwasanaethau a chyfarfodydd hyfryd a bendithiol dros yr ŵyl. Roedd Salem ar sawl achlysur dan ei sang. Carwn ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn cynifer o ffyrdd i sicrhau gwasanaethau a dathliadau arbennig iawn.

Dathlu 10!

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn newydd o'n blaen, dymunwn flwyddyn newydd dda i ddarllenwyr y Dinesydd, croeso i chi ymuno â ni ar gyfer ein gwasanaethau ar y Sul yn ystod y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at gydweithio a mwynhau blwyddyn arall o gyfeillgarwch a chymdeithas. Mae Evan yn dathlu bod gyda ni yma yn Salem ers 10 mlynedd adeg y Pasg (gobaith am barti Evan?!?! - ble'r aeth y blynyddoedd?)

Cymdeithas Nos Fawrth

Cyfarfu'r Gymdeithas ddwywaith ar ddechrau'r mis. Aled Hall oedd ein gwestai cyntaf yn sôn am ei fywyd o'i ddyddiau cynnar ym Mhencader i'w ymddangosiadau diweddar yn yr Albert Hall. Cawsom sawl datganiad ganddo. Alun Guy oedd y gwestai nesaf mewn noson o Desert Island Discs, Noson ddiddorol dros ben gydag atgofion di-ri am hen gymeriadau Cymry Caerdydd.



JOB TRAC CYMRU

Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg

www.jobtraccymru.co.uk

Hysbysebwrch yn

y dinesydd

**Cylchrediad eang yn
y ddinas a'r cylch
ac ar y we**

www.dinesydd.com

Ffôn: 029 20565658

Calendr y Dinesydd

Gwener, 6 Chwefror

Cymrodorion Caerdydd. 'Breuddwyd y Llyfrau Gleision: Twf Addysg Gymraeg.' Sgwrs gan Dr Huw Thomas, yn festri Capel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 7 Chwefror

'Cerdoriaeth i'r Galon.' Cyngerdd gyda Chôr Meibion Pendyrus a Rhian Lois: soprano (enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru 2008) yn Theatr Ddarlithio 1, Ysbyty Athrofaol Cymru, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, am 7.00pm. Trefnir y gyngerdd gan Gangen Caerdydd, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru. Tocynnau: £10. Cysylltwch â 029-2061-6230.

Llun, 9 Chwefror

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Newid hinsawdd, bioamrywiaeth a chadwraeth.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones (Prifysgol Caerdydd). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mercher, 11 Chwefror

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Sgwrs gan Hefin Mathias, cyn-Brifathro Ysgol Cwm Rhydd. Yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.30pm.

Iau, 12 Chwefror

Ysgol Berfformio ARENA yn cyflwyno 'Showcase' yn Neuadd Llanofor, Treganna, am 7.00pm. Tocynnau ar gael wrth y drws: £7. Rhagor o wybodaeth: 07736 074 626; www.ysgolarena.co.uk.

Iau, Gwener 12, 13 Chwefror am 7.30 a bore Sadwrn 14 Chwefror am 10.30 - Pantomeim newydd gan Emyr Edwards - CAMPAU Y DOCTOR GWYDION gan Gwmni Theatr y Crwys. Tocyn -£5.00 i oedolion a £3.00 i blant.

Gwener, 20 Chwefror

Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Merched Iolo Morganwg.' Darlith gan Dr Cathryn Charnell-White (Aberystwyth), yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Sadwrn, 21 Chwefror

Bore coffi i ddysgwyr yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhydney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Swrs gan Amanda Griffiths am 'Etifeddiaeth' (Gerallt Lloyd Owen) am 11.00am. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 23 Chwefror

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant yng nghapel Bethany am 7.00pm.

Iau, 26 Chwefror

Academi: Caryl Lewis yn trafod ei nofel ddiweddaraf Plu am 7.30pm yng Nghanolfan Glyn Jones, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd. Mynediad yn rhad ac am ddim, ond rhaid neilltuo eich lle ymlaen llaw trwy ffonio'r Academi: 029 2047 2266 neu ebostio post@academi.org.

Sadwrn, 28 Chwefror

Ysgol Undydd Geltaidd, dan nawdd Cymdeithas Carnhuanawc, yn Neuadd y Ddinas, rhwng 10.00am a 3.30pm. Cysyllter ag Alan Jobbins (029-2062-3275 neu asjobbins@btinternet.com).

Llun, 2 Mawrth

Cylch Ciniio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Siaradwr: Rhodri Ellis Owen. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Mercher, 4 Mawrth

Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Cwis a hwyl gyda'r dysgwyr yng nghwmni Nia Williams. Yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Gwener-Sadwrn, 6-7 Mawrth

Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Bobi a Sami' gan Wil Sam a dwy ddrama fer gan Samuel Beckett, yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd, am 8.00pm. Tocynnau: 08700 40 2000.

Mercher, 11 Mawrth

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. 'Byd y Dysgwyr.' Sgwrs gan Lynda Newcombe, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.30pm.

Iau, 12 Mawrth

Cylch Ciniio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Siaradwraig wadd: Beti Arch Williams.

Gwener, 13 Mawrth

Cymrodorion Caerdydd. Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, yn rhoi cipolwg yn ôl ar hanes y Cynulliad Cenedlaethol oddi ar ei sefydlu. Yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

Croeso arbennig i aelodau cymdeithasau Cymraeg eraill y ddinas.

Llun, 16 Mawrth

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Beti George yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Llun, 16 Mawrth

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Hanesion Iechyd Cyhoeddus.' Sgwrs gan Berian Williams (Ysgol Gartholwg). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Gwener, 20 Mawrth

Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Tiger Bay a'r Diwylliant Cymraeg.' Darlith gan Dr Simon Brooks, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Sadwrn, 21 Mawrth

Bore coffi i ddysgwyr yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhydney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies am 'Y Gymraeg yng Ngwent' am 11.00am. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Mawrth, 24 Mawrth

Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro Gruffydd Aled Williams (Aberystwyth) ar y testun 'Dyneiddiwr yn y Fro: Siôn Dafydd Rhys a Stradlingiaid Sain Dunwyd'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Saffl

R. EMRYS JONES, SULLY 1920-2008

Cymro cadarn, gŵr bonheddig, Cristion o'i ben i'w sawdl, cymwynaswr hael, enillydd wyth medal Olympaidd – dyna rai o'r teyrngedau a roddwyd i Emrys ar ôl ei farwolaeth ganol Rhagfyr.

Un o hogia Talsarnau oedd Emrys a wnaeth o erioed anghofio hynny. Roedd ei wreiddiau'n ddwfn yn nhir Meirionnydd ac yn arbennig yn yr ardal o amgylch Capel Soar, Talsarnau. Er iddo fod yn hynod o ffyddlon a hael i Gapel Bethel, Rhiwbina, doedd o ddim am symud ei docyn aelodaeth o Soar. Oedd, mi 'roedd Emrys yn Wesla i'r carn, ond bu hefyd yn gweithio dros gael undod rhwng yr eglwysi yn arbennig gydag ENFYS yn ardal Caerdydd a thrwy gefnogi Cyngor Eglwysi Cymraeg y brifddinas.

Ymddiddorai mewn llenyddiaeth Gymraeg a derbyniwyd ef yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2001. 'Roedd ganddo lu o gyfeillion yng Nghylch Llyfryddol Caerdydd a Chymdeithas Gymraeg Dinas Powys.

Treuliodd yr ail ryfel byd gyda'r Llu Awyr mewn gwahanol wledydd yn y Dwyrain Canol. Yn ystod y blynyddoedd hynny, bu'n ysgrifennydd Cymdeithasau Cymraeg Cairo a Chaersalem ac yn gyfrannwr cyson i'r papur newydd Cymraeg 'Seren y Dwyrain'. Ar ôl y rhyfel, aeth Emrys i Gaerdydd i astudio fferylliaeth ac yno y cyfarfu â'i ddarpar wraig Audrey. Ar ôl bod yn fferylllydd ym Mangor, Gilfach Goch a Chaerdydd, agorodd ei siopau ei hun yng Nghasnewydd, y Barri a Chaerdydd.

Ei hobi oedd bridio a rasio colomennod. Enillodd wyth medal Olympaidd gyda'r adar, tair aur, pedair arian ac un efydd ac mae lluniau pedair o'i golomennod - Glaswen, Coch y Bonddu, Llygad Mawr a Gwenno - i'w gweld yn Amgueddfa Sain Ffagan, yn y tŷ mwyaf modern yn nheras Rhyd-y-car.

Bu farw Emrys yn Ysbyty Llandochau, 9 Rhagfyr, yn 88 oed a chydymdeimlir yn fawr ag Audrey a'i blant Nerys, Derfel ac Aled. Cafodd ei gladdu ym mynwent Soar, Talsarnau. Cynhaliwyd oedfa goffa yng Nghapel Salem, Treganna, dan arweiniad ei Weinidog, y Parch. T. Evan Morgan.

Gwener 27 Mawrth – Derbyniad a dawnsio gwerin Archentaidd a Chymreig dan nawdd Cangen y De o Gymdeithas Cymry Ariannin am 7.30 yn Neuadd Eglwys St Catherine, Ffordd y Brenin, Treganna

Gwener, 27 Mawrth

Cylch Cadwgan. Bethan Gwanas yn trafod agweddau ar ei gwaith, yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

O'R MEYSYDD CHWARAEON

Eisteddfod yn cael y bai!

Mae prinder a safon gwael caeau chwarae Caerdydd wedi cythruddo pwyllgor cyngrhair pêl droed Brains Caerdydd a'r Cylch. Ar ôl cynnal yr Eisteddfod ar gaeau Pontcanna ym mis Awst, roedd y pwyllgor ar ddeall bod Cyngor Caerdydd am adnewyddu'r caeau yn barod ar gyfer y flwyddyn newydd. Mae'n ymddangos yn awr na fydd y caeau'n barod tan fis Medi oherwydd methiant y Cyngor i reoli a chynnal a chadw caeau chwarae cyhoeddus.

Mae'r cyngor wedi llusgo'i draed a ceisio cwblhau'r gwaith yn fewnol. O ganlyniad, ychydig sydd wedi'i wneud. Mae'n debyg bod yr Eisteddfod wedi talu'r Cyngor am ddefnyddio'r caeau i gynnal yr Wyl ond nid yw'r arian wedi'i ryddhau ar gyfer y gwaith angenrheidiol. Yn anffodus, er llwyddiant yr Eisteddfod, yr wyl sy'n cael y bai gan lawer am safon gwael y caeau ar draws y ddinas.

Clwb Cymric

Tan ddiwedd Tachwedd, chwaraewyd holl gêmâu cartref Clwb Cymric ym Mharc Trelai yn lle Pontcanna ac yna, oherwydd safon gwael y caeau, bu'n rhaid i'r Cyngor atal y defnydd o'r caeau drwy fis Rhagfyr a Ionawr er mwyn ceisio cwblhau'r gwaith cynnal a chadw! Ar hyn o bryd mae Clwb Cymric a chlybiau eraill yn chwarae eu gêmâu cartref ar hyd ac ar led y ddinas oherwydd methiant y Cyngor.

Bu cryn edrych ymlaen at y gêm rhwng Clwb Cymric a St. Albans - dau dîm cryf a'r tymor hyd yma. Dechreuodd Cymric ar dân, sgoriodd Dewi Hughes gôl hyfryd o ugain lath cyn i St Albans daro'n ôl cyn yr egwyl. Cafwyd sawl cyfle eto yn yr ail hanner ac aeth Cymric ar y blaen, diolch i Matthew Phillips. Ond daeth Cymric dan bwysau tua diwedd y gêm, a gyda dwy funud yn unig yn weddill, sgoriodd y tîm cartref yn dilyn cic gornel, i rannu'r pwyntiau. Aeth Clwb Cymric allan o gwpan Intermediate SWFA yn yr ail rownd gan golli o 6 - 0 yn erbyn Bracla o Ben-y-Bont. Dechreuodd 2009 yn y modd gwaethaf posibl i'r Clwb gan golli 3-0 yn erbyn Llanrhymni - perfformiad mwyaf siomedig a gwaetha'r tymor. Collwyd 4-1 yn erbyn y tîm ar frig y tabl, St Albans.

Siomedig oedd dechrau'r flwyddyn newydd hefyd i ail dîm Clwb Cymric gan golli o 5-0 yn erbyn tîm Cogan Coronation. Roedd dros 10 o'r tîm arferol ar goll gan ei bod yn ystod gwyliau'r Nadolig. Fodd bynnag cafwyd hanner cyntaf ymroddgar gan y tîm gyda'r sgôr ar yr hanner yn 2-0. Yn ystod yr ail hanner, Cogan oedd yn rheoli'r gêm.

Gyda charfan gref, roedd cryn edrych ymlaen at y gêm yn erbyn Cwrt y Vil. Aeth Cwrt y Vil ar y blaen 2-0 yn dilyn amddiffyn gwan ac yna perl o gôl o dros ugain lath. Anfonwyd gôl geidwad Cymric o'r cae yn dilyn tacl flêr yn y cwrt cosbi ond methodd Cwrt y Vil y cic o'r smoty.

Cynhelir sesiynau hyfforddi'r clwb ar gae astro turf Lecwydd rhwng 8 a 9 bob nos Lun. Croeso i unrhyw chwaraewyr newydd.

Mae'r clwb yn dathlu ei ben blwydd yn ddeugain oed a chynhelir cinio yng Ngerddi Sophia nos Sadwrn 9 Mai gyda gêm a barbeciw yn y Mochyn Du ar y prynhawn Sul. Anogir cyn chwaraewyr i archebu tocynnau er mwyn cadarnhau niferoedd. Y gobaith yw cael cynrychiolaeth ac anerchiad gan chwaraewyr o bob degawd i dathlu hanes y clwb.

Os oes gan unrhyw un ddi-ddordeb mewn chwarae i un o'r timau, helpu'r clwb neu ddod i'r cinio dathlu, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Rhys Meilir Davies, rhysmeilir@hotmail.co.uk, ffôn 07775 992 673.



Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn canu carolau i chwyddo cronfa ei helusen am y flwyddyn sef Apêl Arch Noa - Ysbyty Plant Cymru

Ysgol Iolo Morgannwg

Ymweliad Jane Hutt

Yng nghanol prysurdeb dathliadau'r Nadolig cawsom ymweliad gan Jane Hutt AC â'n hysgol. Ymwelodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes â phob dosbarth a chafwyd gwasaeth byr i ddatlu llwyddiannau diweddar yr ysgol.

Eglurodd y gweinidog fod yr ysgol wedi mynd i'r afael â datblygu sgiliau'r disgyblion mewn ffordd symbylus, ymarferol a thrawiadol.



Wythnos Aml-ddiwylliannol Er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau gwahanol ar draws y byd, cynhaliwyd wythnos aml-ddiwylliannol yn ystod Mis Ionawr. Cafwyd ymweliadau gan Richard Owen a fu'n brysur yn codi arian ac yn ymweld â Kenya i adeiladu ystafelloedd dosbarth ar gyfer ysgol gynradd, ymwelydd o Affrica a chyfnwidiodd ein blwyddyn chwech ni â blwyddyn chwech ysgol Mount Stuart ym Mae Caerdydd. Bu croesawu 32 o ddisgyblion Ysgol Mount Stuart yn brofiad arbennig i blant Iolo ac wrth iddyn nhw ymweld â ni, cawsant brofiadau o ddiwylliant Cymreig. Coronwyd yr wythnos pan gyflwynodd blwyddyn pedwar wasanaeth arbennig. Diolch i holl staff yr ysgol am yr holl baratodau.

Gwersi Ffrangeg Dechreuodd Siân-Elin Jones ar ei swydd newydd o ddysgu Ffrangeg yn ysgolion cynradd Y Fro a phontio rhwng yr ysgolion hyn ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Croeso i chi Siân-Elin a phob dymuniad da yn eich gwaith pwsig.



Ffenestri, drysau a tai gwyrdr o ansawdd

- > Stiwdio ddylunio newydd yn Nhrefn-loan, Caerfyrddin - 5 ystafell haul i'w gweld
- > Marciau barcod newydd ar bob ffenestr a drws
- > Gwyrdr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol
- > Gwefan Gymraeg newydd

- Gwarant deg mlynedd heb ddadl
- Dim costau cudd, dim blaendâl
- Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
- Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design



Fel y gwelwyd ar y teledu **itv S4C**

Prif Swyddfa: 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-loan, Caerfyrddin, SA31 3BP

Ystafell Arddangos Caerdydd: Y Rhath, Caerdydd.
E-bost: info@nolanupvc.co.uk

Ffôn: 0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk